# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

### Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 14eg Hydref 2024
### Festri Capel Tudweiliog

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams,Gareth Jones, Chris Brady, Deio Williams, Catrin Williams

Ymddiheuriadau: Sian Parri, Henry Hughes, Alun Williams, John Davies

1. Cadeirwyd gan Catrin Williams, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Derbynwyd gadarnhad bod y gronfa yn cynnig £1485.00 tua'g at gostau'r hysbysfyrddau – bydd y Clerc yn derbyn y cynnig ar ran y Cyngor Cymuned.
   b. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Cafodd y Cerc air hefo Hugh O'Donnell – dywedodd fod y Stad yn hapus i'r Cyngor Cymuned gyflwyno cais cynllunio llawn i'r Adran Cynllunio. Bydd y Clerc yn symud ymlaen hefo hyn.
   c. **Carafan heb ganiatad Llangwnnadl –** ni chafwyd ymateb.
   ch **Audti Allanol –** Derbynwyd anfoneb am £200.00 gan Audit Wales sydd felly'n awgrymu fod yr audit wedi ei basio, er na chafwyd y y dogfennau cadarnhau ganddynt hyd yma.
   d/ **Cwt Cychod Porthysgaden –** Ni chafwyd ymateb.

4. Gohebiaeth:
   **a. Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu..
   **b. Cais cynllunio C24/07896/46/LL Cynefin,Garnfadryn** - Cefnogi

c. **Talu anfoneb Audit Wales £200.00 –** Derbynwyd caniatad i'w thalu.

Ch. **Cais am gymorth i dacluso cytir ger 11 Cae Capel –** Daeth ebost gan y Cynghorydd Gareth Jones yn datgan pryder am ddiogelwch tenant 11 Cae Capel sy'n awyddus i dwtio cytir ger ei ardd gefn. Mae'r darn tir ar rediad sy'n disgyn i'r afon, ac oherwydd oed a cyflwr iechyd y tenant mae pryder am ei ddiogelwch wrth geisio gwneud y gwaith. Trafodwyd y mater a penderfynwyd gofyn i'r Asiantaeth Dai sy'n berchen ar y stad dai, pwy sy'n gyfrifol am y darn tir – gwneud hyn cyn i'r Cyngor Cymuned gymeryd unrhyw gam pellach hefo'r mater.

5. Unrhyw Fater Arall:-

a. Cafwyd pryder fod yna waith adeiladu yn mynd ymlaen yn Rhos y Grug Tudweiliog – angen i'r Clerc holi'r adran cynllunio os oes caniatad wedi ei roi i'r gwaith.
b. Tarmac yn codi wrth Werglodd Fawr Tudweiliog – bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran ffyrdd.
c. Mae tyllau yn datblygu unwaith eto ar y tro ger Bracdy, Dinas – bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran ffyrdd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Tachwedd 11ed 2024 am 7.30yh Festri Capel Dinas..